

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn un o blith 47 o Ymddiriedolaethau Natur ledled y DG ac yn un o blith y 6 Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig, yn dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn:

- buddsoddi yn y dyfodol drwy helpu pobl o bob oed i werthfawrogi a deall bywyd gwyllt yn well;
- prynu a rheoli gwarchodfeydd natur;
- ymgymryd â phrosiectau sydd o fudd i fywyd gwyllt mewn trefi ac yng nghefn gwlad;
- herio datblygiadau sy'n bygwth cynefinoedd bywyd gwyllt;
- gweithio gyda'r cyhoedd, cymunedau, perchnogion tir, cynghorau lleol ac eraill i warchod bywyd gwyllt ar gyfer y dyfodol.

Os hoffech helpu i gefnogi cadwraeth bywyd gwyllt drwy ddod yn aelod neu'n wirfoddolwr, neu os hoffech wybodaeth am warchodfeydd natur lleol, cysylltwch â:

**Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**

**Pencadlys ac Aelodaeth**

376 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd LL57 1YE

**01248 351541**

**e-bost: [nwwt@wildlifetrustswales.org](mailto:nwwt@wildlifetrustswales.org)**

Elusen Gofrestredig: 230772 Cwmni Cyfyngedig: 773995

**[www.northwaleswildlifetrust.org.uk](http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk)**

The **North Wales Wildlife Trust** is one of 47 Wildlife Trusts across the UK and one of 6 Welsh Wildlife Trusts.

We are a registered charity, dependent on the support of our members and donations.

The **North Wales Wildlife Trust**

- invests in the future by helping people of all ages to gain a greater appreciation and understanding of wildlife;
- acquires and manages nature reserves;
- undertakes projects to benefit wildlife in towns and countryside;
- challenges developments which threaten wildlife habitats;
- works with the public, communities, landowners, local councils and others to protect wildlife for the future.

If you would like to help support wildlife conservation by becoming a member or volunteer, or would like information about local nature reserves, please contact:

**North Wales Wildlife Trust**

**Headquarters & Membership**

376 High Street, Bangor, Gwynedd LL57 1YE

**01248 351541**

**email: [nwwt@wildlifetrustswales.org](mailto:nwwt@wildlifetrustswales.org)**

Registered Charity No. 230772

Company No. 773995



### Lleoliad a Mynediad

Mae'r warchodfa lai na 1 km o Benrhynedraeth, Gwynedd ac mae wedi'i lleoli gerllaw Stad Ddiwydiannol Cooke ar yr ochr i'r ffordd sy'n arwain at Bont Briwet, pont dollau Harlech. Mae maes parcio ar gael gerllaw mynedfa'r warchodfa (SH 616388). Ceir mynediad eithaf hwylus ar hyd y llwybrau o amgylch y warchodfa, gan gynnwys cadeiriau olwyn a phramiau hefyd. Er hynny, mae rhai rhannau o'r llwybrau'n serth ac mae ambell ddarn yn croesi tir anwastad. Mae cadeiriau olwyn trydan ar gael drwy drefniant ymlaen llaw.

### Location and Access

The reserve is less than 1 km from Penrhynedraeth, Gwynedd and located adjacent to the Cooke's Industrial Estate on the approach road to Pont Briwet, the Harlech toll bridge. Car parking is available adjacent to the reserve entrance (SH 616388). The roads around the site provide relatively easy access, including for wheelchairs and buggies. However some are steep and there are sections of footpath which cross rough ground. Motorised wheelchairs are available by arrangement in advance.



Cymunedau a Natur  
Communities and Nature



**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**  
Countryside Council for Wales



antenna creative 07772 629063 Papur wedi'i ailgylchu 100% recycled paper  
Y lluniau clawr gan / Cover photos by:  
Damian Hughes, DPH Photography / North East Wildlife / British Wildlife Images

Ymddiriedolaeth Natur  
**Gogledd Cymru**  
**North Wales**  
Wildlife Trust



Gwarchodfa Natur  
**Gwaith Powdwr**  
Nature Reserve



Gwarchod Natur ar gyfer y Dyfodol  
Protecting **Wildlife** for the Future

**Dechreuodd Gwaith Powdwr gynhyrchu ffrwydron yn 1865, gan gyflenwi arfau yn y ddwy Ryfel Byd ac, yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, ffrwydron ar gyfer y diwydiant mwynloddio. Wrth i'r angen am y ffrwydron hyn leihau, caewyd y gwaith yn 1995.**

Roedd y lleoliad arfordirol yn ddelfrydol ar gyfer gweithgynhyrchu ffrwydron, oherwydd ei fod yn anghysbell ac am fod y safle wedi'i rannu'n dri chwm. Gellid cludo'r deunyddiau crai yr oedd eu hangen ar gyfer gweithgynhyrchu, a'r ffrwydron gorffenedig, ar y môr. Roedd hyn yn darparu amddiffynfa naturiol pe digwyddai ffrwydrad damweiniol a hefyd, oherwydd bod y safle mor serth, roedd yn haws symud y nitro-glyserin drwy ddisgyrchiant o'r tanciau setlo i'r tanciau golchi. Creodd yr angen am ddiogelwch hafan i fywyd gwyllt.

Datgomisiynwyd y safle ar ddiwedd y 1990au ar gost o £6 miliwn. Cafodd yr adeiladau eu dadlygru gan ddefnyddio tân, i ffrwydro unrhyw nitro-glyserin oedd yn weddill yno. Mae'r safle wedi newid yn ddramatig ers hynny.

**Gwaith Powdwr started producing explosives in 1865, supplying munitions in both World Wars and, in the latter half of the twentieth century, explosives for the mining industry. As the need for these explosives diminished the works closed in 1995.**

The coastal location was ideal for manufacturing explosives because of its remoteness and the fact that the site was divided into three valleys. The raw materials required for manufacture and the finished explosives could be transported by sea. This provided natural defence in the event of accidental explosions, and the steepness of the site made it easier to safely move nitro-glycerine by gravity from the settlement tanks to the washing tanks. The need for safety created a haven for wildlife.

The site was decommissioned in the late 1990s at a cost of £6 million. Buildings were decontaminated by fire, to explode any residual nitro-glycerine. The site has changed dramatically since then.

Gweithio yn sied pacio'r ffrwydron yn yr 20fed ganrif cynnar



Working in the Explosives Packing Shed in the early 20th century

Cwm Diogelwch y Mwynloddwyr a'r brif safle gwaith yn y 1960au



Miner's Safety Valley and main works complex in the 1960s

Cwm Klondyke yn yr 20fed ganrif cynnar



Klondyke Valley in the early 20th century

Cwm Klondyke 1980au  
Klondyke Valley 1980s



Y Storfa Ffrwydron heddiw

The Explosives Storage Shed today



Sied y Peiriant Weindio heddiw

The Winding Shed today



Sied y Pendil heddiw

The Pendulum Shed today



Y tu fewn i Sied y Pendil  
Inside the Pendulum Shed



Yng Nghwm Cooke, lle roedd cetrin yn cael eu llenwi gyda ffrwydron, daeth nifer o rywogaethau i fyw i'r ardaloedd o rwbel rhydd. Mae'r ardaloedd hyn bellach wedi'u cadw'n llennyrch o laswellt sy'n cynnwys planhigion fel Mefus Gwyllt, Tresgl, Rhosyn y Graig a Phys y Ceirw, sef y planhigyn sy'n fwyd i larfa glöyn byw y Glesyn Cyffredin. Mae'r cwm hefyd yn cynnwys llwyni a choed derw aeddfed. Glaswelltir agored wedi'i amgylchynu gan goetir yw hoff gynefin y Gnocell Werdd; efallai y clywch chi

Yn edrych draw dros aber Afon Dwryrd mae Cwm Klondyke, a gafodd ei enw am ei fod, yn ei anterth, yn cynnwys milltiroedd o bibellau cynhyrchu ac, o'r herwydd, roedd yn edrych yn debyg iawn i drefi'r cyrchoedd aur. Ers sicrhau'r safle, rydym ni wedi gweithio ar adfer y rhostir yn y cwm yma a rheoli'r llwyni sy'n datblygu. Cadwch lygad am adar fel y Llinos a Chlochdar y Cerrig yn ystod misoedd yr haf.

Wrth i chi gerdded i fyny Klondyke, fe welwch chi olygfeydd draw dros aber Afon Dwryrd a thu draw am Ynys Giffan, Castell Harlech a Phortmeirion. Gyda lwc, fe welwch chi Ddyfrgwn, Brithyll Môr a Hwyaidd yr Eithin.

Yn uwch i fyny'r cwm yma mae'r hen Bwll Setlo. Yn ystod misoedd yr haf, gydag ychydig o amynedd, fe welwch chi fedfyll, chwilod dŵr a gweision y neidr a marsennod yma.

Heibio'r pwll mae Sied y Pendwlwm, nodwedd cwbl unigryw. Yma roedd maint y ffrwydradau'n cael eu mesur. Mae'r rhos o amgylch yr ardal yma'n brif safle nythu i'r Troellwr Mawr, aderyn prin o dan warchodaeth. Gyda'r nos ar noson o haf, efallai y clywch chi'r Troellwr Mawr yn rhincian o'r fan hon, neu o'r rhos ar yr ochr arall i'r aber.

- 1 Sied y Pendil  
Pendulum Shed
- 2 Pwll Setlo  
Settling Pool
- 3 Cwm Klondyke  
Klondyke Valley
- 4 Cuddfan Adar  
Bird Hide
- 5 Ystorfa Belfast  
Belfast Store
- 6 Cwm Diogelwch y Mwyngloddwyr  
Miner's Safety Valley
- 7 Cwm Cooke

Overlooking the Dwryrd Estuary is the Klondyke Valley, so named because in its heyday miles of piping made it resemble a gold rush town. Since acquiring the site we have worked to restore heathland in this valley and manage the developing scrub. Look out for birds such as Linnet and Stonechat during the summer months.

As you walk up the Klondyke you will have views over the Dwryrd estuary and beyond to Ynys Giffan, Harlech Castle and Portmeirion. With luck you can see Otters, Sea Trout and Shelduck.

Higher up this valley is the former Settling Pool. During the summer months, with a little patience, you will see newts, water beetles and dragonflies or damselflies.

Beyond this is the unique Pendulum Shed, here explosives charges were measured. The heath around this area is the main nesting site for Nightjar. Late on a summer's evening you may hear Nightjar churring from here or from the other side of the estuary.



coed, yn gynefin pwysig i infertebrata, ac i adar fel Telor y Cnau a'r Dringwr Bach, sy'n bwydo ar yr infertebrata. Mae'r coetir llydanddail yn llecyn arbennig o dda i wyfynnod. Mewn un noson yn unig, daliwyd mwy na 130 o rywogaethau amrywiol yma.

Mae coetir o fedw a helyg gwlyb yn ffinio â'r nant sy'n llifo drwy'r cwm. Mae'r amgylchedd clos o amgylch y nant yn bwysig i redyn, mwsoglau a chen.

In Cooke's Valley, where cartridges were once filled with explosives, open grassy areas are now home to plants such as Wild Strawberry, Common Rockrose and Bird's foot Trefoil, the larval food plant of Common Blue Butterflies. The valley also contains scrub and mature oak. Open grassland surrounded by woodland is used by Green Woodpecker. You may hear their distinctive laughing call or see them feeding at an ant's nest. Dead wood is kept amongst the trees and is important for invertebrates and Nuthatch and Treecreeper, which feed on them. The broad-leaved woodland is especially good for moths, in just one night more than 130 different species were caught.


Wet birch and willow woodland borders the stream flowing through the valley. The humid atmosphere around the stream is important for ferns, mosses and lichens.

7 Cwm Cooke  
Cooke's Valley

-  Rhostir  
Heathland
-  Coetir/Prysg  
Woodland/Scrub
-  Coed  
Trees
-  Llannerch  
Glade
-  Pwll  
Pond
-  Mynediad ar droed  
Access by foot
-  Parcio  
Parking

Yn y cwm canol, sef Cwm Diogelwch y Mwyngloddwyr, roedd nifer o daniaduron yn cael eu cynhyrchu a'i profi. Mae'r ardaloedd agored yn cael eu cynnal yn awr gan y gwirfoddolwyr fel llennyrch cysgodol. Ffafir yr ardaloedd hyn gan bryfed sy'n hedfan heibio ac sy'n fwyd i'r Cyffyllog, i Ystlumod ac i'r Troellwr Mawr. Mae ystlumod i'w canfod ym mhob rhan o'r warchodfa ac maent yn defnyddio rhai o'r adeiladau sydd ar ôl ar y safle a hefyd nifer o flychau ychwanegol sydd wedi eu gosod iddynt.

Mae nifer o weddill yr adeiladau ar y warchodfa yn cael eu defnyddio gan yr Ymddiriedolaeth Natur a hefyd maent yn darparu cartrefi i'r bywyd gwylt. O amgylch y safle fe welwch fyrddau gwybodaeth am y gwahanol adeiladau a'r bywyd gwylt y gallwch ddod ar ei traws.



In the central Miners Safety Valley detonators were once made and tested. Open areas are now maintained by volunteers as sheltered glades. These areas are favoured by flying insects which provide food for Woodcock, Nightjar and bats. Bats are found throughout the reserve and make use of some of the remaining buildings along with additional bat boxes.

The remaining buildings on the nature reserve are used by the Wildlife Trust and provide a home for wildlife. Around the site you will find interpretation boards about the buildings and the wildlife you might find.